Gweddïau Cristnogion yn erbyn Poenydio Pasg 2011

Atat ti, yr hwn a wrandewi weddi, Arglwydd,
yr unig un a all glywed ein meddyliau cudd ac a all wrando ar ein geiriau llafar,
o ddiogelwch cymharol ein cartref ysbrydol
fe weddïwn dros bawb a ddelir yn gaeth ac sy'n amddifad o ryddid.

Fe gofiwn ni am y carcharorion hynny a fygythir
y rhai sy'n dioddef y poenau bwriadol, boed boen corfforol neu boen meddyliol,
y rhai hynny y treisiwyd eu hawliau dynol,
y rhai sy'n dioddef sarhad ac amarch, ofnau ac iselder,
y rhai sydd heb greithiau gweladwy ond sy'n dioddef euogrwydd a gwarth,
y rhai sy'n gleisiau i gyd ac wedi eu dyrnu,
y rhai sy'n gwrthod taflu'r bai ar eraill na gwadu grym eu argyhoeddiad
Yn enw Iesu, yr Oen difai, fe weddïwn ni am faddeuant ac am ryddid.

Fe gofiwn ni am arweinwyr sefydliadau llygredig
sy'n carcharu eu gwrthwynebwyr ac yn tagu llais pob beirniadaeth,
y rhai y mae eu calonnau wedi caledu, eu clustiau yn fyddar i'r gwirionedd,
eu llygaid ar gau i gyfiawnder, gan eu hamgylchynu eu hunain â chreulondeb
ac â grym mileinig gormes.
Yn enw Iesu, yr Oen difai, fe weddïwn ni am faddeuant ac am ryddid.

Fe gofiwn ni'r teuluoedd
wedi eu gwahanu oddi wrth eu hanwyliaid, yn aros am newyddion, heb wybod beth sy'n digwydd,
yn ofni'r gwaethaf, heb ddeall efallai y cynllwynio a chymhlethdod y gweithredu,
heb gytuno â chymhellion cydwybod efallai;
eraill yn deall yn iawn oblygiadau argyhoeddiad a'r pris sydd i'w dalu,
eu hawliau eu hunain wedi eu cyfyngu.
Yn enw Iesu, yr Oen difai, fe weddïwn ni am faddeuant ac am ryddid.

Fe gofiwn ni yr Oen aberthwyd ar Ŵyl y Pasg,
Y Sanhedrin a alwyd yn hwyr y nos, y golchi dwylo, y goron ddrain;
y carcharor a oedd ei hunan yn ddraenen yn ystlys y Sefydliad;
fe gofiwn ni, mewn cywilydd, warth y gwadu a'r bradychu,
yn fwy na phopeth, fe ddiolchwn, Dduw, am Waredwr a roddodd i ddynoliaeth yr hyn na allai dynoliaeth ei chyflawni drosti ei hun.
Yn enw Iesu, yr Oen difai, fe weddïwn ni am faddeuant ac am ryddid.

Y Parchedig Ddr R Alun Evans
Gweinidog Cynulleidfaol yng Nghaerffili a Gwaelod-y-garth